**Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro**

# Cylchlythyr

Rhifyn 60 Tymor Gwanwyn 2025

## Yn y rhifyn hwn :


| | |
|---|---|
| Nodyn gan y Cadeirydd | 2 |
| Diweddariad Trawsnewid | 3 |
| Y Mynegai | 10 |
| Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) | 11 |
| Adroddiadau blynyddol llywodraethwr | 12 |
| Disgyblu a Gwahardd Disgyblion | 13 |
| Digwyddiad Hyfforddi Llysgenhadon Gwych Cenhadon Hawliau'r Fro 2024/25 | 15 |
| Multiply C&V | 17 |
| Croeso i Cylch Chwarae Gwas y Neidr | 18 |
| VSGA | 19 |
| Vale of Glamorgan Governor Support Unit | 20 |




# Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro

## Cylchlythyr

Rhifyn 60 Tymor Gwanwyn 2025

Gobeithio bod y gwanwyn ar ei ffordd o'r diwedd.  Rydyn ni wedi cael rhai dyddiau heulog hyfryd, ac mae'r dyddiau'n amlwg yn mynd yn hirach.  Mae'n fwy golau yn y bore ac mae'r machlud wedi symud i fod ar ôl 6.00pm o'r diwedd. Efallai y bydd hyn yn codi ysbryd ar ôl yr hyn a oedd yn aeaf tywyll iawn rydw i'n teimlo.

Mae'r tywydd yn effeithio ar fy lles a'm cyflwr meddwl, ond hefyd llawer o bethau eraill – fy ngwaith, fy mherthnasoedd, fy nghwmpas ar gyfer amser hamdden ac yn y blaen. Ac mae'r hyn sy'n berthnasol i mi hefyd yn berthnasol yn yr ysgolion rydyn ni'n gyfrifol amdanynt.  Pa mor aml ydych chi'n ystyried lles eich Pennaeth?

Mae bod yn Bennaeth yn swydd unig.  Mae'r cyfrifoldeb wir yn eich dwylo chi.  Mewn argyfwng ysgol, mae pob llygad yn troi atoch chi am arweiniad ar yr hyn i'w wneud nesaf.  Chi yw'r arweinydd sy'n cael pawb i weithio i'r un cyfeiriad, sy'n canmol ac yn gwthio pobl ymlaen – y prif ffigwr, wyneb cyhoeddus yr ysgol i'r disgyblion, ac i'r gymuned hefyd.

Ond chi hefyd yw rheolwr strwythur cymhleth iawn.  Mae llawer o rannau symudol mewn ysgol, ar wahân i gadw disgyblion, y staff a'r Llywodraethwyr yn ddiogel ac wedi'u hymgysylltu; mae yna faterion cyffredin o ddydd i ddydd fel sicrhau bod y to'n dal dŵr, bod y biliau'n cael eu talu ar amser, bod gan bawb ddigon o ddeunyddiau addysgu, nad oes llygod mawr yn y gegin, a yw'r goeden yn y maes chwarae yn tanseilio neuadd yr ysgol.

Mae angen i lywodraethwyr ofalu am eu Penaethiaid.  Ydych chi'n helpu i leihau eu lefelau straen neu'n ychwanegu atyn nhw?  Un pwynt syml – pryd wnaethoch chi adolygu amseroedd cyfarfodydd y Corff Llywodraethu ddiwethaf?   Efallai bod saith o'r gloch y nos yn berffaith i'r Cadeirydd ond nid yw'r un mor dda i staff sydd wedi bod yn yr ysgol ers wyth y bore.   Nid yw diwrnodau 13 awr yn dda i neb.

Ydy eich Pennaeth yn cael cymorth priodol?  Oes ganddyn nhw Benaethiaid eraill y gallan nhw droi atynt am gyngor?  Ydy'r Partner Gwella Ysgolion yn gefnogol?  Oes yna gwrs hyfforddiant a allai eu helpu mewn agwedd benodol ar y swydd?  Ydy cyfarfodydd y Corff Llywodraethu yn ddefnyddiol ac yn adeiladol?

Gadewch i ni obeithio am wanwyn heulog cynnes i roi pawb mewn hwyliau da ar gyfer yr her nesaf sy'n ein hwynebu.

Dymunaf Basg hapus i chi.

**Dr Martin Price; Cadeirydd Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro ac Is-gadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn, Y Barri**

## Diweddariad Trawsnewid

Cyflwynwyd y Diweddariad Trawsnewid yn ddiweddar i Benaethiaid Ysgolion Cynradd a Fforwm y Gyllideb a'r UDA. Mae'r Diweddariad Trawsnewid yn rhoi trosolwg o ymagwedd Dysgu a Sgiliau tuag at ei Raglen Trawsnewid sy'n cynnwys 4 ffrwd waith,

Amlinellwyd yn y diweddariad ddadansoddiad cryno o ddata contractau ysgolion gyda rhai penawdau allweddol ar wariant ar draws ysgolion, ysgolion cynradd, uwchradd, clystyrau a sylw ar gontractau gwastraff gyda rhywfaint o ddadansoddiad manwl. Mae'r sleidiau hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r llif gwaith contractau a'r llif gwaith costau asiantaeth ynghyd â rhai camau nesaf a amlinellwyd.

### Llif Gwaith Prosiectau Trawsnewid



# Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro

## Cylchlythyr

Rhifyn 60 Tymor Gwanwyn 2025






## Contracting- Analysis

**Average spend**

**£59,021**

**across primaries**

**Most costly contracts- Cleaning**

**£990,722**

**spent on cleaning contracts across primaries.**




## Gwariant Uchaf

| Ysgol | Clwstwr | Cyfanswm y gwariant | Gwariant uchaf ar gontract unigol |
|---|---|---|---|
| Ysgol 1 | Y Barri | £135,324.74 | £19,266 |
| Ysgol 2 | Y Barri | £130,576.01 | £87,366 |
| Ysgol 3 | Y Barri | £124,177.13 | £39,380 |
| Ysgol 4 | Penarth | £100,861.00 | £36,204 |
| Ysgol 5 | Y Barri | £96,656.66 | £22,187 |
| Ysgol 6 | Penarth | £96,089.20 | £34,754 |
| Ysgol 7 | Y Barri | £91,706.23 | £53,299 |
| Ysgol 8 | Penarth | £87,857.88 | £39,102 |
| Ysgol 9 | Y Gorllewin | £80,273.42 | £40,407 |
| Ysgol 10 | Y Barri | £77,172.23 | £58,544 |

# Cymharu Contractau

| Cymaryddion | Ysgol A | Ysgol B |
|---|---|---|
| Nifer ar y gofrestr | 232 | 233 |
| Cymwys i gael prydau ysgol am ddim | 45 | 38 |
| Sefyllfa'r gyllideb | Diffyg o £410K | Gwarged o £71K |
| Cyfanswm y gwariant ar gontractau | £135,324.74 | £58,846.80 |
| Cost contract cyfartalog | £1,691 | £2,101 |
| Contract gwerth uchaf | £19,266.21 | £31,380.00 |

# Contractio

## Contractau mwyaf

- **Glanhau**
- **Gwastraff**
- **Argraffwyr/llungopiwyr**
- **Gwaith cynnal a chadw tir**

## Cyfleoedd

- **Trefniadau contractio yn seiliedig ar glwstwr**
- **Darparu gwasanaethau yn fewnol lle mae capasiti ac mae'n gost effeithiol.**
- **Datblygu ein modelau caffael a'n cefnogaeth i ysgolion er mwyn sicrhau'r gwerth gorau.**

# Sbotolau ar Wastraff

**£203,261**

wedi'i wario ar gasglu gwastraff ar draws ysgolion cynradd yn 2023/24

Ffigurau blwyddyn 2024/25 hyd yn hyn

**£148,950** wedi'i wario ar gasglu gwastraff

**£9,399**

**Gwariant uchaf ar gasglu gwastraff yn 2023/24**

**£8,765**

**Gwariant uchaf ar gasglu gwastraff yn 2024/25 hyd yn hyn**

**£4,619**

**Gwariant cyfartalog ar gyfer ysgolion cynradd yn 2023/24**

**£3,385**

**Gwariant cyfartalog hyd yn hyn yn 2024/25 ar gyfer ysgolion cynradd**




## Penawdau Gwastraff

### Arsylwadau

- **Amrywiaeth sylweddol o ran costau contractau.**
- **Mae mathau a hyd contractau hyd yn oed yn amrywio gyda'r un cyflenwr.**
- **Amrywiad rhwng gwerth contract o gymharu â'r hyn a wariwyd/anfonebwyd.**
- **Costau ychwanegol ar gyfer lifftiau ychwanegol/casgliadau coll ac ati. Cosbau gadael yn gynnar a chyfnodau rhybudd hir.**
- **Y cyflenwyr mwyaf costus yw Biffa a Veolia.**

### Y camau nesaf

- **Wrthi'n trafod â gwasanaethau gwastraff i addasu dyfynbrisiau ar gyfer ysgolion.**
- **Canolbwyntio ar yr ysgolion hynny y mae eu contractau yn dod i ben yn ystod y misoedd nesaf.**
- **Edrych i ddefnyddio dyfynbrisiau gwastraff Bro Morgannwg fel cymharydd i'ch contractau presennol a/neu unrhyw ddyfyniadau eraill y ceisiwch.**

# Gweithlu (Asiantaeth)

**£7.5M**

wedi'i wario ar weithwyr asiantaeth yn 2023/24

**£6.2M**

wedi'i wario ar weithwyr asiantaeth yn 2024/25 hyd yma ym Mis 10.

## Diweddariad ar lif gwaith asiantaeth

- Cyfres o gyfarfodydd gyda chroestoriad bach o ysgolion, pob un â demograffeg a phatrymau gwahanol o ran gwariant asiantaeth.
- Pwrpas y cyfarfodydd oedd adeiladu sylfaen wybodaeth gryfach o fodelau gweithredu staff, deall gofynion asiantaethau, a nodi pa heriau staffio sy'n bodoli ar draws ein hysgolion.
- Y bwriad yw adeiladu darlun cliriach ar draws ein hysgolion o'r ffyrdd presennol o weithio ac archwilio pa gyfleoedd sydd ar gael i gefnogi ysgolion i leihau pwysau costau ar eu cyllidebau.

# Gweithlu (Asiantaeth)

## Sylwadau allweddol ar ddefnyddio asiantaethau

- Mae'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn defnyddio staff asiantaeth am amrywiaeth o resymau mewn amrywiaeth o ffyrdd.
- Themâu cyffredin - pwysigrwydd parhad. Lle bo'n bosibl, bydd ysgolion yn ceisio defnyddio staff cyflenwi o blith eu staff eu hunain cyn dewis defnyddio asiantaeth, ond nid yw hyn bob amser yn bosibl oherwydd capasiti. Mae ysgolion yn defnyddio staff asiantaeth mewn gwahanol ffyrdd, rhai fel ymateb tymor byr (ymateb yn ystod y dydd), ac eraill yn lle cyflogi ar gontract. Adborth amrywiol ar y defnydd o'r cynllun LTS.
- Heriau - Dod o hyd i staff asiantaeth cywir. Cynnydd yn y defnydd o staff asiantaeth ym mis Tachwedd, Rhagfyr a Chwefror, ac yna ym mis Mai/Mehefin (cyfnod arholiadau mewn ysgolion uwchradd). Costau staff asiantaeth yn uchel. Mae potensial i ddibyniaeth ar staff asiantaeth gael effaith ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn yr ystafell ddosbarth os yw staff cyflenwi'n newid yn rheolaidd.

# Gweithlu (Asiantaeth)

## Cyfleoedd

- **Byrdymor - Ymchwilio i gyfleoedd posibl i adeiladu capasiti staff cyflenwi ar draws ysgolion. P'un a yw hyn fesul ysgol neu fesul clwstwr.**
- **Byrdymor - Ystyried yr opsiwn o ddefnyddio asiantaeth a ffefrir fesul clwstwr i roi pwysau ar asiantaethau wrth drafod ffioedd.**
- **Hirdymor - Archwilio opsiynau i ddatblygu ein model asiantaeth ein hunain fel trefniant braich masnachu tebyg i Big Fresh.**

# Gweithlu (Asiantaeth)

## Y Camau Nesaf

- **Angen cryfhau ein dealltwriaeth o strwythurau staffio. Ysgolion i gyflwyno eu strwythurau staffio (sy'n cynnwys unrhyw ddefnydd lled-barhaol o asiantaeth).**
- **Ymgymryd â rhywfaint o waith modelu data gan ddefnyddio ysgolion astudiaeth achos i gyfrifo costau a budd ychwanegu capasiti ychwanegol o gymharu ag opsiynau amgen.**

**Fel llywodraethwr** – – Sut alla i gefnogi sgyrsiau cadarnhaol ynghylch caffael a chontractau fel rhan o gyfarfod y Corff Llywodraethu?

- Sut ydyn ni'n caffael contractau? Ydyn ni'n gwario gormod?
- A oes unrhyw gontractau y gellid eu hadolygu, ac arian i'w arbed? (ee: gwastraff, glanhau)
- Beth mae fy ysgol yn ei wneud i sicrhau ei bod yn cael y gwerth gorau am arian gan ei chontractwyr?

**Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro**

# Cylchlythyr

Rhifyn 60 Tymor Gwanwyn 2025







Y Mynegai, a ariennir gan Teuluoedd yn Gyntaf, yw cofrestr wirfoddol Bro Morgannwg o blant a phobl ifanc ag anableddau neu anghenion ychwanegol. Mae'r gofrestr yn rhoi darlun cliriach o angen ar draws Bro Morgannwg. Gall rhiant-ofalwyr neu ofalwyr proffesiynol gofrestru i'r Mynegai ar-lein. Mae'r rhai sy'n cofrestru yn derbyn E-fwletinau wythnosol a chylchlythyrau ddwywaith y flwyddyn gyda gwybodaeth am weithgareddau cynhwysol, cymorth ariannol, cymorth i deuluoedd, addysg, pontio a llawer mwy.

## Llyfryn Addysg Newydd

Mae'r Mynegai wedi cyhoeddi llyfryn addysg newydd sbon yn ddiweddar. Mae'n archwilio opsiynau dysgu amgen, yn tynnu sylw at y cymorth sydd ar gael ac yn cynnig awgrymiadau ac arweiniad fel cwestiynau a awgrymir i'w gofyn i staff wrth ymweld ag ysgolion. Datblygwyd y llyfryn mewn cydweithrediad â phartneriaid lleol gyda'r nod o roi'r sgiliau i riant-ofalwyr lywio trwy'r System Addysg a gwneud penderfyniadau gwybodus.

**Yr hyn sydd angen i chi ei ystyried wrth feddwl am opsiynau addysg ar gyfer eich plentyn ag anghenion ychwanegol**

## 47fed Rhifyn o Gylchlythyr Y Mynegai

Yn ddiweddar, mae'r Mynegai wedi cyhoeddi eu Rhifyn Gaeaf o Gylchlythyr Y Mynegai. Mae'n ymdrin â'r gwaith diweddar y mae'r Mynegai wedi bod yn rhan ohono, gweithgareddau lleol a chenedlaethol, cymorth i deuluoedd, cysylltiadau defnyddiol ar gyfer gwasanaethau allweddol a gwybodaeth am bontio. Mae'r cylchlythyr yn cael ei ddosbarthu'n ddigidol ac mewn print ar draws Bro Morgannwg gan gynnwys i ysgolion y Fro, ymwelwyr iechyd, ysbytai a llyfrgelloedd.

Cylchlythyr Y Mynegai i'r Gaeaf - Rhifyn 47

**Beth mae teuluoedd yn ei ddweud am Y Mynegai:**

*"Diolch yn fawr iawn am yr holl wybodaeth hon. Rwyf wedi cael cymaint o gyngor gennych chi a byddaf yn edrych drwy'r holl gysylltiadau a gweld pa rai fyddai'n gweithio i X a'n teulu. Byddaf yn aros am alwad ffôn X yfory; mae'n swnio'n wych. Diolch eto am eich cymorth."*

*"I love the Index!! the newsletters and the ebulletins are quite informative"*

# Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM):

## Yr hyn y mae angen i lywodraethwyr ysgol ei wybod

Mae adnodd newydd ar gyfer llywodraethwyr ysgol bellach ar gael ar Hwb, a gellir dod o hyd iddo o fewn y gyfres bresennol o adnoddau dysgu proffesiynol ar gyfer CGM

Dolen i'r adnoddau dysgu proffesiynol: Adnoddau - Hwb

Dolen uniongyrchol i restr chwarae Llywodraethwyr: Golwg - Hwb



Yn ogystal, mae Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Bro Morgannwg ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg/Addysg Grefyddol (CYSAG/CYS) yn rhoi cymorth i ysgolion, llywodraethwyr a'r awdurdod lleol. Gellir gweld rhagor o wybodaeth ar eu gwefan Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg / Addysg Grefyddol

Mae gan CYSAG lawer o swyddogaethau, ond ymhlith y ffyrdd allweddol y gallant gefnogi ysgolion a chyrff llywodraethu mae:

- Rhoi cyngor ar CGM yn y Cwricwlwm i Gymru
- Rhoi cyngor i'r ALl ar addysg grefyddol a chydaddoli
- Cefnogi gweithdrefnau cwynion, lle mae achosion yn cael eu cyfeirio ato os ydynt yn ymwneud ag addysg grefyddol neu gydaddoli

**Bydd hyfforddiant ar gael yn Nhymor yr Haf**

## Adroddiadau blynyddol llywodraethwr

Ar 31 Ionawr 2025, cyhoeddwyd canllawiau wedi'u diweddaru i gyrff llywodraethu ysgolion ar ba wybodaeth y dylid ei chynnwys yn adroddiadau blynyddol llywodraethwyr. Mae'r canllawiau llawn i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru
Adroddiadau blynyddol llywodraethwyr [HTML] | LLYW.CYMRU
Anogir cyrff llywodraethu i gyhoeddi eu hadroddiadau yn ystod Tymor yr Hydref. Rhaid iddynt ddarparu copi o'r adroddiad blynyddol i bob rhiant a gofalwr sydd â phlentyn wedi'i gofrestru yn yr ysgol. Mae llawer o ysgolion yn cyhoeddi'r adroddiad ar eu gwefan

**Rhaid** i'r adroddiad blynyddol gynnwys gwybodaeth benodol gan gynnwys

- Manylion cyfarfodydd gyda rhieni a gofalwyr dros y flwyddyn ddiwethaf
- Manylion y llywodraethwyr
- Gwybodaeth am berfformiad a thargedau
- Datganiad ariannol
- Camau a gymerwyd gan y corff llywodraethu neu'r ysgol yn ystod y flwyddyn
- Trefniadaeth, cynlluniau a pholisïau
- Bwyta ac yfed yn iach
- Cwricwlwm, trefniadaeth addysg a dulliau addysgu
- Y Gymraeg
- Gosod cyfleusterau toiledau ysgol newydd

Yn ogystal, efallai y bydd llywodraethwyr yn dymuno cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Cyflwyniad gan y Cadeirydd
- Gwybodaeth am bresenoldeb dysgwyr a thargedau
- Newyddion, digwyddiadau a dathliadau
- Hyfforddiant Llywodraethwyr
- Geirfa neu dalfyriadau neu acronymau



## Disgyblu a Gwahardd Disgyblion

## Deddf Cydraddoldeb a Gwahaniaethu



Cafodd canllawiau Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion Llywodraeth Cymru eu diweddaru yn ôl ym mis Ebrill 2024. Diben y diweddariad oedd sicrhau bod y canllawiau yn cyd-fynd â diwygiadau i reoliadau, yn ogystal â Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021. Yn ogystal, mae yna ganllawiau â ffocws mwy penodol ar Gydraddoldeb a nodweddion gwarchodedig er mwyn cynorthwyo ysgolion i ddeall a chydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Ddeddf 2010, yn benodol mewn perthynas â gwaharddiadau. Mae gofyniad clir y dylai ysgolion weithredu yn unol â'r egwyddor o gydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu fel y nodir yn erthygl 2 o'r CCUHP.

Nid yw ysgolion yn cael eu hatal rhag gwahardd dysgwyr sydd â nodwedd warchodedig, ond mae'n atal ysgolion rhag eithrio dysgwyr oherwydd eu nodwedd warchodedig neu wahaniaethu'n anghyfreithlon yn ystod y broses gwahardd. Mae hyn yn berthnasol i bob gwaharddiad, boed yn barhaol neu am gyfnod penodol.

Mae hefyd yn anghyfreithlon gwahardd dysgwr sydd â nodwedd warchodedig yn sgil ymddygiad na fyddai dysgwr heb nodwedd warchodedig yn cael ei wahardd amdano. Rhaid i ysgolion wneud addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr anabl i'w proses gwahardd ac i'w cosbau disgyblu.

Gallai fod gan ddisgybl nodwedd warchodedig hyd yn oed os nad oes ganddo Gynllun Datblygu Unigol (CDU) neu Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). **Nid oes angen diagnosis na gwaith papur meddygol o reidrwydd**, y prawf yw; a oes gan y plentyn neu'r person ifanc amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd?

Fodd bynnag, hyd yn oed yn bwysicach, mae'n hanfodol cofio nad yw nodweddion gwarchodedig yn gysylltiedig ag anabledd yn unig. Maent hefyd yn cynnwys ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae dyletswydd gyffredinol ar gorff llywodraethu ysgol i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waharddir gan Ddeddf 2010 ac i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt.

Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro

Cylchlythyr

Rhifyn 60 Tymor Gwanwyn 2025

## Cyfarfodydd y Pwyllgor Disgyblu

### Gwaharddiadau o 5 diwrnod neu lai mewn un tymor

- Os yw'r rhiant neu'r gofalwr yn gofyn am gyfarfod i drafod y gwaharddiad, gall y Cadeirydd gynnull cyfarfod. Gall y pwyllgor ystyried sylwadau'r rhiant/gofalwr, ond ni allant gyfarwyddo i adfer y disgybl. Nid oes terfyn amser ar gyfer cynnal y cyfarfod hwn, ond dylai'r Cadeirydd ystyried ymateb yn brydlon i unrhyw gais. Mae'n bwysig iawn bod unrhyw bryderon am waharddiad (hyd yn oed gwaharddiadau cyfnod byr, penodol o ddiwrnod neu ddau) yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Disgyblu Disgyblion ac NI DDYLID ymchwilio iddynt fel cwyn.

### Gwaharddiadau o fwy na 5 diwrnod mewn tymor, ond dim mwy na 15 diwrnod.

- **RHAID** i'r pwyllgor alw cyfarfod rhwng y chweched a'r hanner canfed diwrnod ysgol i ystyried y gwaharddiad, os yw'r rhiant/gofalwr a/neu'r dysgwr yn dymuno cyflwyno sylwadau i'r pwyllgor. Gall y canlyniad fod naill ai bod y Pwyllgor Disgyblu'n cynnal y penderfyniad i wahardd neu os na, gallant gyfarwyddo i adfer y disgybl. Os yw'r gwaharddiad eisoes wedi digwydd, gallant roi copi o'u canfyddiadau ar gofnod ysgol y dysgwr. Os yw rhiant, gofalwr neu ddysgwr yn anhapus â'r penderfyniad, nid oes hawl i apêl annibynnol yn dilyn unrhyw benderfyniad gan y llywodraethwyr. Fodd bynnag, gallant ddefnyddio proses gwyno'r ysgol os ydynt yn teimlo nad yw'r Pwyllgor Disgyblu wedi ymateb i'w pryderon neu wedi cyflawni eu cyfrifoldebau'n gywir.
- Os yw rhiant neu ddysgwr o'r farn bod y gwaharddiad yn deillio o anabledd sydd gan y rhiant neu'r plentyn, yna mae ganddynt hawl i wneud hawliad o wahaniaethu ar sail anabledd i Dribiwnlys Addysg Cymru (TAC).

### Gwaharddiadau parhaol neu un neu fwy o waharddiadau cyfnod penodol sy'n dod i gyfanswm o fwy na 15 diwrnod ysgol mewn tymor,

- Rhaid i'r pwyllgor gynnull cyfarfod rhwng y chweched a'r pymthegfed diwrnod ysgol i ystyried yr gwaharddiad. Dylai'r cyfarfod hwn naill ai gynnal y penderfyniad i wahardd neu ei wrthdroi a chyfarwyddo adfer y disgybl. Os nad yw'n bosib rhoi cyfarwyddyd adfer am fod y cyfnod gwahardd wedi dod i ben a bod y dysgwr wedi dychwelyd i'r ysgol, gellir rhoi copi o ganfyddiadau'r pwyllgor ar gofnod ysgol y dysgwr. Os bydd y Pwyllgor Disgyblu yn cynnal y gwaharddiad, mae hawl i apelio i banel apeliadau annibynnol.

**Bydd hyfforddiant ar gael yn Nhymor yr Haf**

## Digwyddiad Hyfforddi Llysgenhadon Gwych Cenhadon Hawliau'r Fro 2024/25







Pobl ifanc sy'n rhan o brosiect Cenhadon Hawliau'r Fro gynlluniodd y digwyddiad Llysgenhadon Gwych eleni. Eleni, fe groesawn ni 21 o ysgolion cynradd a chyfanswm o 42 o ddisgyblion o bob rhan o'r sir am ddiwrnod o ddysgu cydweithredol.

Agorwyd y digwyddiad gan y Cynghorydd Rhiannon Birch, Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg. Cymerodd y Cynghorydd Birch yr amser i drafod pwysigrwydd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), a llongyfarchodd y plant ar eu gwaith yn eu hysgolion.

Yn ogystal, derbyniodd y cyfranogwyr fideo bersonol gan Gomisiynydd Plant Cymru, Rocio Cifuentes, yn eu hannog i barhau â'u gwaith caled, gan nodi'r effaith gadarnhaol y mae'r Cynllun Llysgenhadon yn ei chael ar ei gwaith ac amlinellu ei chynllun materion misol ar hyn o bryd.

Cynhaliwyd y digwyddiad yn y Swyddfeydd Dinesig yn y Barri, a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Hwyluswyd rhan Gymraeg y digwyddiad gan aelodau Cymraeg eu hiaith o'r Cenhadon Hawliau, ynghyd â gweithiwr ieuenctid o'r Urdd.

Cychwynnodd y Cenhadon Hawliau y digwyddiad gydag amrywiaeth o weithgareddau yn canolbwyntio ar hawliau. Aeth y cyfranogwyr ati i greu eu hysgol ddelfrydol, gan ystyried ble y gallant gyrchu neu weithredu hawliau plant a phobl ifanc yn yr ysgol. Cefnogodd y Cenhadon Hawliau y disgyblion i greu uwch-arwr o Lysgennad Gwych, gan eu hannog i feddwl am ba rinweddau y gallai fod eu hangen i fod yn Llysgennad Gwych llwyddiannus yn yr ysgol.

Cawsom y fraint o groesawu swyddfa'r Comisiynydd Plant, a gyflwynodd weithdy i godi ymwybyddiaeth o Gomisiynydd Plant Cymru a'i rôl bwysig. Cafodd y cyfranogwyr gyfle i gwblhau gweithgaredd Blwch Sgwrsio i gynorthwyo eu dealltwriaeth.

Roedd y digwyddiad hefyd yn caniatáu i gyfranogwyr gymryd rhan mewn gweithdy a gyflwynwyd gan Make it Soph, gan adeiladu a chreu eu Masgotiaid Robot Hawliau eu hunain allan o sbwriel. Cafodd yr ychwanegiad rhyngweithiol hwn groeso brwd gan yr holl ddisgyblion.










Daeth Digwyddiad y Llysgenhadon Gwych 2025 â nifer o wasanaethau, sefydliadau a gwneuthurwyr penderfyniadau allweddol at ei gilydd, yn ogystal â phlant a phobl ifanc, mewn enghraifft go iawn o ddysgu cydweithredol. Nid yn unig y rhoddodd hyn gyfle i ni ddysgu am hawliau plant a phobl ifanc gyda'n gilydd, ond tynnodd sylw hefyd at yr angen i ddod at ein gilydd i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ymgorffori hawliau plant ym mhopeth a wnawn.









# Multiply C&V

Dysgu i rieni, gwarcheidwaid a staff ysgol gydag ap Multiply C&V

Mae ap Multiply C&V, a ddatblygwyd gan gyngor Caerdydd a Bro Morgannwg, yn adnodd dysgu am ddim sydd wedi'i gynllunio i gefnogi rhieni a staff ysgolion i wella eu sgiliau. Gyda saith llwybr sy'n cwmpasu cefnogi eich plentyn, sgiliau hanfodol, llythrennedd digidol ac addysgu, mae'r ap yn darparu ffordd hyblyg a deniadol o fagu hyder a datblygu sgiliau allweddol.

Wedi'i ariannu gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, mae prosiect Lluosi yn helpu oedolion i wella rhifedd, cefnogi dysgu plant ac agor drysau i gyfleoedd gwaith newydd. Gall ysgolion a llywodraethwyr rannu'r adnodd hwn i rymuso teuluoedd a chryfhau dysgu gartref ac yn y gymuned.

Lawrlwythwch ap Multiply C&V heddiw a dechrau dysgu! Neu i'w ddefnyddio ar-lein, cliciwch yma.



# Croeso i Cylch Chwarae Gwas y Neidr

Agorodd cylch meithrin Gwas y Neidr yn mis Medi, ac mae wedi'i leoli ar safle Ysgol Iau Dinas Powis

Tu fewn mae gan cylch chwarae Gwas y Neidr ystafell chwarae agored gydag ardal awyr agored eang, lle gall plant archwilio natur a chymryd rhan mewn chwarae creadigol.

Rydym yn dilyn dull plentyn-ganolog sy'n annog chwilfrydedd a dysgu ymarferol. Mae Gwas y Neidr yn darparu amgylchedd meithringar lle gall pob plentyn archwilio, dysgu a ffynnu.







# Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro

## Cylchlythyr

Rhifyn 60 Tymor Gwanwyn 2025

**Pwyntiau arbennig o ddiddordeb:**

- Sefydlwyd AVAGO ym 1996 ac fe'i lansiwyd o'r newydd yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro (VSGA)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 o lywodraethwyr etholedig, ynghyd â 2 gynrychiolydd rhieni-lywodraethwyr

**Sefydlwyd VSGA I;**

- Hyrwyddo arfer gorau ym maes llywodraethu mewn ysgolion yn AALI Bro Morgannwg
- Hyrwyddo gwaith mewn partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r AALI
- Gweithio gyda buddddeiliaid er mwyn sicrhau adnoddau digonol ar gyfer ysgolion yn yr AALI T
- Cynrychioli safbwyntiau'r Gymdeithas ynghylch materion sy'n ymwneud gyda llywodraethu ysgolion a rheolaeth ac adnoddau ysgolion i awdurdodau a sefydliadau perthnasol

**VGSA Management Committee 2024-26**

The Management Committee is comprised of elected Governors plus the two parent Governor Representative (one each from the Primary and Secondary Sectors)

| No | Name | School |
|---|---|---|
| 1 | Mr P Cate (Vice Chair) | Ysgol Gynradd Jenner Park |
| 2 | Mr J Duxbury | Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant |
| 3 | Ms J Evans | Ysgol Gynradd Fairfield ac Ysgol Gynradd Gladstone |
| 4 | Mr G Griffiths | Ysgol Gwaun y Nant & Ysgol Sant Curig |
| 5 | Mrs Jackie Griffiths | Ysgol Gynradd Fairfield & Ysgol Gynradd Babyddol Sant Joseff |
| 6 | Cllr W Hennessey | Ysgol Gynradd y Rhws & Ysgol Gynradd Sain Helen |
| 7 | Mrs S Jenkins | Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St Andrews ac Ysgol Gyfun St Cyres |
| 8 | Mr G Kemp | Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St Nicholas & |
| 9 | Dr C Lee | Ysgol Gyfun St Cyres |
| 10 | Cllr J Lynch-Wilson | Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr & Ysgol Gynradd South Point |
| 11 | Dr M Price (Chair) | Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn |
| 12 | Mr J Roberts | Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr & Ysgol Gynradd St Illtyd |
| 13 | Mrs T Vaughan-Taylor | Ysgol Gyfun y Bont-faen |
| 14 | Mr O Williams | Ysgol Sant Baruc |
| 15 | Cllr M Wilson | Ysgol Gynradd Fairfield ac Ysgol Gynradd Victoria |

Ymhorau swydd Cynrychiolwyr Rhiant Lywodraethwyr (PGRs)

Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr Cynradd– L Barrowclough- Ysgol Gynradd Llandochaul
Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr Uwchradd– G van de Burgt – Whitmore High School

**Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro**

**Cylchlythyr**

Rhifyn 60 Tymor Gwanwyn 2025

## Vale of Glamorgan Governor Support Unit

**Email: governors@valeofglamorgan.gov.uk**

**Contact Details:**

**John Sparks**
**Head of Governor Support and School Complaints**
**Tel; 01446 709106**
**Email: JSparks@valeofglamorgan.gov.uk**

**Francesca Wright**
**Senior Governor Support Officer**
**Tel; 01446 709125**
**Email: fwright@valeofglamorgan.gov.uk**

Mae gan VSGA gyfeiriad e-bost y gallwch ei ddefnyddio er mwyn cysylltu â ni, sef VSGA@valeofglamorgan.gov.uk Neu, gallwch gysylltu â VSGA trwy'r post: VSGA a'r Uned Cymorth i Lywodraethwyr Dysgu a Sgiliau Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU



**Pasg Hapus i'r holl Lywodraethwyr**